Astudiaeth achos: Heddlu Gorllewin Canolbarth Lloegr

Gweithio hyblyg

Cyflwynodd Heddlu Gorllewin Canolbarth Lloegr amrywiaeth o opsiynau gweithio hyblyg creadigol i fynd i'r afael â materion sy'n effeithio ar eu gallu **i ddenu a chadw sgiliau allweddol:**

- Mae gweithio i'r heddlu yn aml yn cynnwys oriau anghymdeithasol a shifftiau hir a gall fod yn anodd cydbwyso gofynion hyn gyda chyfrifoldebau teuluol a gofalu.
- Mae'r gweithlu yn heneiddio ac erbyn hyn gall staff weithio y tu hwnt i 65 oed, ond mae'n well gan lawer o weithwyr hŷn gael patrymau gweithio hyblyg.

Mathau o weithio hyblyg a gyflwynwyd

- Gall y rhai sydd ddim yn cael eu cyflogi ar system sifftiau weithio oriau hyblyg. Mae hyn yn eu galluogi i weithio unrhyw oriau sy'n cynnwys amser band eang cyn belled â'u bod yn gweithio'r oriau craidd gorfodol. Gall staff gronni hyd at 10 awr y mis o wyliau, y gellir eu cymryd fel diwrnodau hyblyg.
- Oriau gwaith cywasgedig yn cyfateb i 5 diwrnod mewn dim ond 4, gan alluogi 1 diwrnod i ffwrdd yr wythnos.
- Oriau blynyddol, gan weithio nifer penodol o oriau bob blwyddyn yn hytrach na bob wythnos, yn benodol i gadw mewnbwn gweithwyr hŷn profiadol iawn.
- Gweithio yn ystod tymor yr ysgol, gan ddefnyddio gwyliau â thâl a di-dâl dros wyliau'r ysgol.
- Mae gweithio rhan-amser yn cymryd sawl ffurf, ac yn gallu amrywio yn ôl amgylchiadau unigol a gofynion gweithredol.
- Partneriaid yn rhannu swydd, yn cael eu trin fel contractau cyflogaeth rhan amser.
- Gweithleoedd hyblyg, trwy ddarparu gweithwyr a swyddogion â gliniaduron fel y gallant weithio o'u cartref neu unrhyw leoliad arall.

Rhwystrau canfyddedig i'w goresgyn gan Heddlu Gorllewin Canolbarth Lloegr

- Natur 24 / 7 o fusnes yr heddlu.
- Nid yw'r gofynion y swydd yn caniatáu clocio i mewn ac allan.
- Ni all swyddogion gerdded allan o ddigwyddiadau mawr.

Effaith ar y sefydliad

- Llai o absenoldeb, cynhyrchiant uwch a mwy o hyblygrwydd o fewn y gweithlu.
- Denu a chadw gweithwyr benywaidd - dros 30% o swyddogion yn fenywod, y gyfran uchaf ond un o swyddogion benywaidd yn y wlad.

Gwersi sydd wedi'i dysgu

- Wrth edrych yn ôl, mae Heddlu Gorllewin Canolbarth Lloegr yn dweud y dylai fod wedi darparu mwy o hyfforddiant ymwybyddiaeth i staff a rheolwyr ar weithio hyblyg, i atal dryswch cychwynnol ar yr opsiynau a'r gred mai ar gyfer rhieni plant ifanc yn unig oedd hyn.